# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd C A Webster** **Ward: Castellnewydd**

## Plaid: Plaid Geidwadol Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Castellnewydd ar 04 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 47 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon. |
| **Gweithgarwch Etholaeth**<br><br>Rwyf wedi trefnu cymhorthfa reolaidd lle rwyf ar gael i gyfarfod â thrigolion ward Castellnewydd i drafod unrhyw bryderon. Cynhelir y gymhorthfa hon ar ddydd Sadwrn cyntaf bob mis yn y llyfrgell yng nghanolfan hamdden Pen-y-bont ar Ogwr. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd a rennir, achlysurol gydag Aelod Cynulliad lleol.<br><br>Rwy'n hysbysu trigolion am waith rwy'n ei wneud yn y cyngor drwy gylchlythyr achlysurol a gohebiaeth arall, nad ydynt yn cael eu cyllido gan arian trethdalwyr, mae'r rhain yn cael eu danfon â llaw ar draws y ward bob chwarter, sy'n rhoi'r cyfle i mi gyfarfod â thrigolion yn anffurfiol a thrafod eu pryderon.<br><br>Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r aelod cabinet dros lesiant i ddarparu cyfleuster lle i newid yng nghanolfan hamdden Halo, canolfan hamdden tref Pen-y-bont ar Ogwr, a leolir yn ward Castellnewydd. Rwyf wedi bod yn ymgyrchu dros y ddarpariaeth hon ers 2010, cyn cael fy ethol i CBSP.<br><br>Rwyf wedi cefnogi grŵp gweithredu yn y gymuned sydd wedi dod at ei gilydd i wrthwynebu datblygiad, na fydd, yn eu barn hwy, yn cynnig dim i'w hamwynder preswyl, ac rwy'n cytuno â hyn. |

Rwy'n gyrru ac yn cerdded ar draws y ward bob wythnos, gan roi gwybod am dyllau yn y ffordd a phalmentydd gwael y dof yn ymwybodol ohonynt.

Rwy'n gwasanaethu trigolion gyda fy nghofnod presenoldeb ymroddedig yng nghyfarfod y cyngor ac rwy'n cadeirio pwyllgor craffu.

Rwy'n cynnal proffil mewn rhai o'r cyfryngau lleol gyda datganiadau a llythyrau i'r wasg. Mae sefydliadau cyfryngau lleol eraill yn dewis peidio â chyhoeddi fy natganiadau i'r wasg. Mae gennyf dudalen Facebook a ffrwd Twitter weithredol, lle rwy'n rhoi'r cyfle i drigolion gysylltu â mi a gweld dolenni a newyddion o'm sefydliad gwleidyddol a'r awdurdod lleol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Drwy fynediad i'r Gronfa Gweithredu yn y Gymuned, rwyf wedi cefnogi tair menter yn Ward Castellnewydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

Tŷ Sant Ioan, Bryn Castellnewydd
Gwnaed cais am gyllid grant gan Ffrindiau'r tŷ hanesyddol hwn ar gyfer prynu byrddau gwybodaeth. Mae Tŷ Sant Ioan yn lleoliad diwylliannol gwerthfawr yn y fwrdeistref ac mae ganddo hanes hir. Mae'n croesawu ymwelwyr yn ystod ei ddiwrnodau agored a digwyddiadau arbennig. Roeddwn yn falch o gefnogi'r cais hwn oherwydd bod cael adnodd hanesyddol a dysgu mor werthfawr yn ein cymuned yn fraint ac rwy'n gobeithio y bydd yn mynd o nerth i nerth.

YMCA
Gwnaed cais grant o'r YMCA, a leolir yn ward Castellnewydd, i gefnogi gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored ar gyfer oedolion ifanc agored i niwed, anabl. Roeddwn yn falch o gefnogi hyn er mwyn galluogi pobl ifanc, na fyddai llawer ohonynt byth yn cael y cyfle i brofi gwersyll dros nos a gweithgareddau awyr agored heb y cymorth arbenigol a gynigir iddynt gan staff YMCA. Gwnaeth y gweithgareddau hyn ryddhau lle yn adeilad YMCA i alluogi plant eraill sy'n agored i niwed gael mynediad i'r cyfleuster.

Young At Heart
Gwnaed cais ar y cyd i gynghorwyr sy'n cynrychioli aelodau Castellnewydd, Cefn Glas a Llangewydd a Brynhyfryd. Roeddwn yn falch o gysylltu â dau aelod arall i ddarparu cyllid i'r aelodau dros 50 oed sy'n defnyddio Canolfan Gymunedol Westward i gyllido bws mini a roddodd gynnig i aelodau o'n cymuned hŷn i gael rhai teithiau dydd, lleihau unigedd a galluogi cyfeillgarwch i ddatblygu.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Mae fy mhresenoldeb am y flwyddyn mewn cyfarfodydd a gofnodir yn 92%. Rwy'n mynd i gyfarfodydd eraill drwy gydol y flwyddyn lle nad yw fy mhresenoldeb yn cael ei gofnodi.

Rwyf hefyd wedi fy ethol i wasanaethu ar Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, lle gallaf gyfrannu'n gyfannol i'r trigolion rwyf yn eu gwasanaethu yng Nghastellnewydd.

| | |
|---|---|
| Rwy'n mynd i'r eglwys yng Nghastellnewydd, lle rwy'n aml yn cael cymhorthfa fyrfyfyr, ac rwy'n parhau'n aelod ymroddedig o ychydig o elusennau a sefydliadau sy'n cyfrannu at gefnogi pobl ym mwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr ac ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain yn amrywio o gefnogi pobl ag awtistiaeth a chyn-filwyr i fynegi safbwynt claf i weithwyr meddygol proffesiynol. Rwyf hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â gwleidyddion eraill i drafod materion sy'n effeithio ar drigolion, o GIG Cymru ac addysg gydag Aelodau'r Cynulliad a materion eraill ar faterion cenedlaethol gydag Aelodau Seneddol. | |
| **Y Cynghorydd** C A Webster | **Dyddiad: 28/05/2018** |